| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | YMATEB I ADOLYGIADAU |
| Disgrifiad: | Darllen ac ymestyn dealltwriaeth o iaith ganmoliaethus yn genre adolygiadau |
| Grwpiau blwyddyn | CA3 - Blwyddyn 9 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Llafaredd<br>• ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt<br><br>Darllen<br>• Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd wrth ddarllen testunau … sy'n newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt<br>Ysgrifennu<br>• defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd... yn gywir |
| Testun Dylan Thomas | Dim |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Taflen adnodd<br>• Thesawrysau (opsiynol) |
| Trefn addysgu: | Trafodaeth ddosbarth agoriadol ar beth yw adolygiad - ble mae dod o hyd iddyn nhw, beth yw eu pwrpas, pa mor ddibynadwy ydyn nhw, oes eu hangen arnon ni?<br><br>Cyflwynwch y syniad o iaith bositif/gadarnhaol a negyddol i ddisgrifio'r defnydd o iaith i gyflwyno safbwynt. Gofynnwch am syniadau gan y dysgwyr i ddisgrifio llyfr (neu ffilm) sy'n gyfarwydd iddyn nhw - er enghraifft, geiriau fel ardderchog, arbennig, deallus, creadigol. Hefyd, casglwch rai negyddol - siomedig, astrus, di-fflach, anwastad. Gellir troi hwn yn weithgaredd thesawrws.<br><br>Defnyddiwch y daflen adnodd, a chyflawnwch y tasgau yn ôl gallu'r dysgwyr. |
| Gweithgareddau estyn: | Gellir gosod her i greu llyfryn o adolygiadau, neu greu ardal ar wefan yr ysgol i fod yn gornel adolygiadau llyfrau da. |
| Addasu i grwpiau oedran eraill | |